caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

# Canllawiau sbwriel yn ymwneud â smygu

## Crynodeb

Ionawr 2022

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

## Pam mae sbwriel yn ymwneud â smygu yn bwysig?

Mae arolygon Sbwriel Blynyddol ar draws Cymru wedi dangos mai sbwriel yn ymwneud â smygu (bonion sigaréts yn bennaf) yw'r math o sbwriel sydd fwyaf cyffredin ar ein strydoedd. Yn 2018-19, roedd sbwriel yn ymwneud â smygu (SRL) ar 79.6% o strydoedd ar gyfartaledd ar draws Cymru

Er ei fod yn llai gweledol na rhai mathau o sbwriel, mae SRL yn achosi problemau amgylcheddol niferus. Mae'n diraddio'n araf yn yr amgylchedd a gall gyflwyno perygl tân os na chaiff ei ddiffodd yn iawn. Mae bonion y sigaréts yn aros yn yr amgylchedd am flynyddoedd, gan droi'n ficroblastigau y gellir eu trosglwyddo i afonydd a'r môr. Maent yn cynnwys tocsinau a gall bywyd gwyllt eu bwyta'n hawdd, gydag effaith angheuol. Mae'r ffaith eu bod mor fach yn golygu eu bod yn cael eu cludo ymhell o'u tarddle ac yn eu gwneud yn anodd ac yn cymryd amser i'w glanhau.

## Sut mae seilwaith lleol yn effeithio ar broblem SRL?

Mae ymchwil wedi dangos mai anaml y mae awdurdodau lleol yn meddwl yn strategol o ran ble i roi biniau. Mae smygwyr eisiau diffodd bonion sigaréts yn gyflym ac mae lleoliad cyfleusterau gwaredu digonol yn ffactor allweddol wrth leihau bonion sydd yn cael eu taflu. Dylai biniau addas fod yn flaenoriaeth mewn ardaloedd â nifer uchel o ymwelwyr a lle mae'r cyhoedd yn ymgynnull yn yr awyr agored. Dylai biniau sigaréts gynnwys plât diffodd. Mae llawer o finiau sigaréts wedi eu dylunio i fod yn 'gudd' neu i gyd-fynd â'r amgylchedd ond mae cynyddu gwelededd yn bwysig ac argymhellir defnydd cyson o liw a thestun. Er bod biniau difyr yn gallu bod yn effeithiol iawn, mae angen eu hadnewyddu'n barhaus (mor aml â phob pythefnos o bosibl) neu gallant waethygu'r mater. Yn ogystal, mae hyrwyddo blychau llwch poced yn helpu smygwyr i waredu a mynd â bonion eu sigaréts i ffwrdd pan nad oes bin gerllaw ac mae'n tueddu i fod yn ddewis poblogaidd, yn arbennig os ydynt ar gael mewn amrywiaeth eang o leoedd.

# Pa ymagweddau eraill all helpu i fynd i'r afael â SRL?

## Gorfodi

Mae gorfodi er mwyn atal sbwriel ond yn gweithio pan fydd y gweithredwyr yn credu eu bod yn debygol o gael eu dal ac mae angen negeseuon ac ymagwedd gyson. Mae defnydd blaenorol o gwmnïau preifat ar gyfer gorfodi o ran sbwriel wedi dangos y perygl y gall y cyhoedd ystyried eu bod yn cael eu targedu'n annheg. Mae smygu yn arferiad sydd yn tueddu i ddigwydd yn amlach mewn ardaloedd â phroblemau economaidd-gymdeithasol ac mae dirwyon felly yn fwy tebygol o gael eu rhoi i'r rheiny fydd yn ei chael hi'n anodd talu.

## Gall ymyriadau ac arloesi helpu i leihau problem SRL

- "Ysgogi" pobl tuag at y biniau – olion traed lliwgar yn eu harwain at y bin. Defnyddio biniau sydd, yn wahanol i lawer o finiau confensiynol, yn llachar, yn lliwgar ac yn hwyl.
- Partneriaethau, yn cynnwys ymgysylltu â busnesau lle mae smygwyr yn ymgynnull.
- Ymgyrchoedd addysg â negeseuon am y niwed a achosir gan sbwriel Smygu fel yr effaith ar fywyd gwyllt a dyfrffyrdd
- Gall gweithredu cymunedol hefyd helpu i dargedu ardaloedd â phroblemau penodol gyda sbwriel yn ymwneud â smygu. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cefnogi grwpiau cymunedol ac Arwyr Sbwriel ar draws Cymru.
- Mae cadw ardal yn glir rhag sbwriel yn annog peidio â gollwng mwy o sbwriel. Gall fod yn heriol clirio sbwriel smygu er bod rhai peiriannau glanhau yn cael eu datblygu a allai helpu. Gallai hyn fod yn ddrud. Ymagwedd arall yw "dylunio allan" y mannau lle mae bonion sigaréts yn arbennig o debygol o gael eu dal.
- Mae ymgysylltu busnesau yn allweddol a gallai mabwysiadu Ardaloedd Di-sbwriel gynorthwyo ardaloedd lle mae sbwriel smygu yn broblem barhaus.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi cynnal treial Sbwriel smygu yn seiliedig ar egwyddorion "ysgogi" a sawl ymyrraeth arall. Mae adroddiad llawn ar gael. Lle mae ymyriadau ac arloesi'n cael eu rhoi ar brawf mae'n bwysig bod monitro a gwerthuso cyn ac ar ôl y rhain yn cael ei wneud yn ofalus. Gall monitro Sbwriel smygu fod yn heriol ac mae gan Cadwch Gymru'n Daclus brofiad a chanllawiau allai helpu gyda hyn.

## Pa negeseuon y gellir eu defnyddio?

Mae angen i negeseuon da gyd-fynd â'r holl ymagweddau uchod. Gellir ystyried taflu bonion sigaréts yn llai annerbyniol yn gymdeithasol nag eitemau eraill oherwydd eu bod yn fach a'r amgyffrediad ffug eu bod yn pydru. Dylid defnyddio negeseuon am effaith SRL ar finiau a blychau llwch poced yn fwy.

Mae ffocws negyddol ar y rhan fwyaf o negeseuon sydd wedi eu hanelu at smygwyr neu maent wedi eu hanelu at effeithiau smygu ar iechyd. Tra'n cefnogi'r holl ymdrechion i hybu rhoi'r gorau i smygu, mae'n bwysig nodi bod ysgogwyr sbwriel smygu yn wahanol iawn ac felly mae angen iddynt edrych a theimlo'n wahanol i unrhyw negeseuon iechyd y cyhoedd.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn argymell bod negeseuon sbwriel smygu yn canolbwyntio ar un o'r ysgogwyr canlynol:

- Er gwaethaf eu maint, sbwriel ydynt
- Mae hidlwyr sigaréts wedi eu gwneud o blastig ac nid ydynt yn fioddiraddiadwy
- Mae eu taflu yn arwain at ganlyniadau difrifol i fywyd gwyllt a'r amgylchedd
- Nid cyfleusterau gwaredu yw draeniau
- Gellir eu gwaredu'n ddiogel mewn biniau sbwriel

caru cymru

Gofalu am ein gwlad

Caring for Wales